

Adroddiad adran Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg 2023 - 2033

Dyddiad	5 Hydref, 2026
Adran	Prifffyrdd, Peirianeg ac YGC
Awdur	Steffan Jones

1. Pa bolisiau a chynlluniau sydd mewn lle o fewn eich adran er mwyn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith? Nodwch y maes blaenoriaeth (blynyddoedd cynnar, dysgu, gwaith a gwasanaeth, y gymuned neu ymchwil a thechnoleg)

Polisiau a chynlluniau strategol perthnasol

Strategaeth Iaith y Cyngor 2023 – 2033

Prosiectau yng nghynllun y Cyngor

Gweithredu ar Risgiau Llifogydd:

Gweithredu ar risgiau llifogydd

Mae risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol yn cynyddu gydag effaith newid hinsawdd sy'n golygu fod lefelau môr yn codi a stormydd mwy dwys yn digwydd yn fwy aml. Mae gan Wynedd yr arfordir mwyaf yng Nghymru ac oherwydd natur ein tirwedd mae canran uchel o'n cymunedau, a'r isadeiledd sy'n eu gwasanaethu, ar yr arfordir. Byddwn yn cydweithio gydag asiantaethau eraill, er mwyn blaenoriaethu ein harfordir ar sail risg, ac yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau lle bo hynny'n bosibl. Mae hefyd risg o lifogydd mewndirol pan fo dŵr yn cronni ac afonydd yn gorlifo. Byddwn yn llunio cynlluniau dalgylch er mwyn helpu i osgoi/ ymateb i fygythiadau presennol a chynyddol i'r dyfodol. Mae'r Adran yn cynnal cyswllt parhaus â'r cymunedau hynny sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd ac erydiad arfordirol, gan sicrhau bod cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu yn digwydd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn gyntaf yn unol â pholisi iaith y Cyngor.

Teithio Llesol (Cyfraniad YGC at Gynllun y Cyngor)

Er mai Adran Amgylchedd sy'n gyfrifol am y rhaglen Teithio Llesol, mae YGC yn gweithredu'r cynlluniau ar eu rhan. Mae hyn yn cynnwys cyflawni cynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ym Mangor (Penrhos/Penchwintan), Ysgol Foel Gron, Mynytho ynghyd â chynlluniau a ariannwyd drwy'r gronfa gyfalaf craidd Teithio Llesol gwerth £500,000. Mae YGC hefyd wedi cyflawni'r gwelliannau i Lôn Las Ogwen gan gynnwys Pont Sarnau newydd yn Nyffryn Ogwen.

Prosiectau a chynlluniau eraill

Ail-osod Arwyddion Uniaith Gymraeg-

Eleni, mae'r adran wedi adnewyddu nifer o arwyddion ffyrdd a strydoedd yn ardal Dwyfor er mwyn adlewyrchu'r enwau uniaith Gymraeg swyddogol. O ganlyniad, mae pob arwydd sy'n cyfeirio traffig at Borthor (Whistling Sands gynt) bellach yn dangos yr enw Porthor yn unig, ac mae arwyddion sy'n cyfeirio at Borth Neigwl (Hell's Mouth gynt) bellach yn dangos yr enw Porth Neigwl yn unig. Yn gyfan gwbl, adnewyddwyd 17 o arwyddion fel rhan o'r gwaith hwn. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, cwblhawyd gwaith tebyg i newid arwyddion statau a strydoedd yn Nhrefor, ynghyd ag arwyddion mewn sawl lleoliad yn Efailnewydd, Mynytho ac Abersoch.

Gweler Atodiad 1 am luniau o'r arwyddion uniaith Gymraeg.

Gwaith Grant (Gosod Stribedi Llechi)

Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno prosiect o osod stribedi llechi ar lwybrau cerdded ym Mhorthmadog, Tywyn a Phenygroes, sy'n adrodd hanes, treftadaeth a diwylliant yr ardaloedd hyn. Rydym yn falch o nodi ein bod bellach yn ehangu'r fenter drwy gyflwyno stribedi llechi yn Llys Dafydd, Bethesda. Mae aelodau'r gymuned leol wedi dewis deg gair ac ymadrodd sy'n adlewyrchu cymeriad a hunaniaeth yr ardal a bydd gwaith mesur ac asesu cychwynnol yn cael ei gynnal dros yr wythnosau nesaf cyn symud ymlaen i'r cam gweithredu.

YGC

Cynllun Busnes YGC

Cynhaliwyd Cynhadledd staff YGC ar y 18fed o Fehefin yn y Galeri yng Nghaernarfon i ddiweddarau staff am gynnydd cyflawni amcanion y Cynllun Busnes.

Mae trydedd rhan y Cynllun Busnes yn cynnwys Cyfraniad Lleol a Chenedlaethol - Y Gymraeg a Chymreictod - "Ers ni gael ein sefydlu yn 1996, rydym yn darparu gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddwn yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith mewn meysydd technegol. Ein Nod - Gwella Sgiliau Iaith: Anelwn at ddatblygu sgiliau iaith ein gweithlu trwy ddarparu addysg a hyfforddiant Cymraeg, gan gynnwys cyrsiau ac ymgyrchoedd addysg iaith i staff. Trwy hyn, byddwn yn datblygu ac yn gwella amgylchedd y gweithle i staff sy'n siarad Cymraeg, gan wella'r ymdeimlad o berthyn a chynhwysiant pob aelod o staff".

Fideos Recriwtio YGC

Drwy ddefnyddio adnoddau mewnol, mae YGC yn creu fideos recriwtio dwyieithog gan ganolbwyntio ar gynnal gweithle Cymraeg a chyfleon i ddatblygu yn academiaidd a proffesiynol tra dal i fyw'n lleol.

Digwyddiadau

Cynhaliwyd Stodin ar faes Sioe Meirionydd a Sioe Sir Fôn gan ganolbwyntio ar ddatblygu gyfra gyda YGC, a bod YGC yn cynnig gwasanaethau dwyieithog i'n holl gleientiaid. Cynhaliwyd y Stodin yn Sioe Môn mewn partneriaeth gyda Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Drwy raeadru negeseuon dyddiol ar gyfryngau Traffig Cymru, yn

ogystal a YGC a Chyngor Gwynedd, roedd posib cyrraedd cynulleidfia eang o bobl ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Yn ogystal, bu i YGC gefnogi digwyddiad dathlu daucanmlwyddiant Pont Grog y Borth. Bu i staff YGC gynnal gweithgareddau i blant a phobl ifanc ddysgu am beirianeg yng Nghanolfan Telford Porthaethwy ar dydd Sadwrn y 7fed o Awst.

2. Beth arall sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl i ddefnyddio'r Gymraeg?

(e.e. addysg, adnoddau, teuluoedd, hyrwyddo defnydd o wasanaeth drwy'r Gymraeg)

Hyrwyddo Swyddi, Gyrfaoedd a Gwasanaethau - Mae'r Adran yn cefnogi ffeiriau swyddi a digwyddiadau a rydym yn sicrhau ein bod yn mynychu'r digwyddiadau hyn i ymgysylltu gyda pobl Gwynedd a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig swyddi arbenigol mewn sawl maes ac mae digwyddiadau o'r fath yn rhoi cyfle i sgwrs gyda pobl wyneb yn wyneb, gan drafod y buddion o weithio i'r Cyngor fel gweithle Cymraeg a'r math o wasanaethau mae'r Adran yn ei gynnig yn ddwyieithog i'r cwsmer.

Dyma enghreifftiau o'r math o ddigwyddiadau dan sylw: -

- Cefnogi ffeiriau Swyddi Gwaith Gwynedd ar draws y Sir – Abermaw, Bangor a Porthmadog,
- Mynychu digwyddiad gyrfaoedd yn M-Sparc, ac ymuno gyda Fforwm Niwclear Cymru fel partner.

Digwyddiadau Ysgolion

Ers eu sefydlu, mae'r Tîm Tacluso wedi bod yn rhagweithiol wrth drefnu digwyddiadau ar y cyd â'r Tîm Ailgylchu o fewn Adran yr Amgylchedd, er mwyn annog plant a phobl ifanc ledled y sir i gymryd diddordeb mewn amrywiaeth o faterion amgylcheddol. Mae'n gyfle hefyd i hybu gwaith yr adran yn ogystal â'r iaith Gymraeg. Yn ddiweddar, fe wnaethon gynnal cyfres o sesiynau addysgol a gweithgareddau ymarferol mewn ysgolion a digwyddiadau cymunedol. Byddwn yn cario ymlaen gyda'r math yma o waith i'r dyfodol ac yn manteisio ar bob cyfle i gyd-weithio.

Gwelir isod rai enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd, gyda lluniau o'r digwyddiadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 1:

- Mae'r Tîm Tacluso wedi bod yn cydweithio â disgyblion Ysgol Penybryn a Heddlu Gogledd Cymru dros y misoedd diwethaf i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol lleol. Yn ystod sesiynau gyda'r disgyblion, nodwyd mai ysbwriel a baw cŵn oedd eu prif bryderon. Dyluniodd y disgyblion arwyddion yn y dosbarth, ac ar 7 Gorffennaf bu'r Tîm Tacluso a'r plant yn eu gosod mewn mannau allweddol o amgylch Bethesda. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn codi sbwriel yn yr ardal.
- Cynhaliwyd diwrnod tacluso yn yr ardd gymunedol yng Ngharmel ar y cyd ag aelodau lleol o'r gymuned a disgyblion yr ysgol leol
- Cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru, Adra a Cadw Cymru'n Daclus ar brosiect i drawsnewid yr ardd gymunedol ym Morfa Cadfan, Tywyn
- Cefnogi disgyblion blwyddyn 11 oedd yn paratoi i symud ymlaen i'r chweched dosbarth i ymgymryd â phrosiect i wella'r ardd gymunedol fel rhan o'u cymhwyster

Dug Caeredin. Roedd y gwaith yn cynnwys adeiladu mannau tyfu llysiau gyda'r bwriad o ddefnyddio'r cynnyrch i baratoi bwyd yn y ganolfan ieuencid.

Gweler Atodiad 1 am luniau o'r digwyddiadau hyn.

3. Ydy datblygiad technoleg wedi amharu ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu wedi rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg? Os yn berthnasol rhwch enghraifft.

Sut ydych chi'n sicrhau nad yw datblygiad technoleg yn effeithio ar eich gallu i ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?

Mae rhai o systemau rheoli asedau'r adran ar gael yn Saesneg yn unig, sy'n amharu ar allu staff i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd yn eu gwaith. Yr ydym yn adolygu ein systemau ar hyn o bryd gan adnabod cyfleoedd lle gallwn newid elfennau o'r system i'r Gymraeg.

Enghraifft o hyn yw system asedau goleuo stryd lle bydd linc penodol gyda system mewnol FFOS.


4. Sut ydych chi'n cadw cofnod o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg? Allwch chi rannu data perthnasol?

Mae ymholiadau cyffredinol yr Adran yn cael eu cofnodi yn system safonol mewnol FFOS y Cyngor. Yr ydym hefyd yn derbyn gohebiaeth drwy gyfrwng Gymraeg yn unig dros e-bost yn benodol daw hyn gan Cyngorau Cymuned a Thref.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf derbyniodd yr Adran gyfanswm o 5,988 o ymholiadau drwy system FFOS y Cyngor gyda 3,144 (52.5%) yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg a 2,844 (47.5%) yn cael eu cyflwyno yn Saesneg. Mae hyn yn dangos y galw sylweddol am wasanaethau cyfrwng Cymraeg ac yn amlygu'r pwysigrwydd i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ganolog.

Rydym fel adran yn gweithio ar system i gofnodi ymholiadau eraill gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth fel y gallwn adrodd ar y data perthnasol yma i'r pwyllgor nesaf.

5. Beth yw sgiliau iaith eich staff?



- Mae'r Adran yn cyflogi 443 o staff.
- Mae 277 o'r staff wedi cwblhau'r Hunanasesiad iaith sef 62.5%.
- Ar gyfer 147 pellach o'r gweithlu (rheng flaen), mae'r rheolwyr llinell wedi cwblhau aseiad ar eu rhan.
- Mae hyn yn gadael 19 sydd heb aseiad iaith o gwbl.
- Mae 95.7% o'r staff yn cyrraedd dynodiad iaith y swydd.

Rydym yn cefnogi ein staff i fynychu hyfforddiant perthnasol, gweler isod gofnod o'r niferoedd sydd wedi dilyn hyfforddiant eleni.

2 x Cwrs Mynediad 2

2 x Cwrs Adolygu Mynediad 2 – Dysgu Cymru

2 x Cwrs Uwch 1 – Llety Arall, Caernarfon

6. Rhowch enghreifftiau o unrhyw rwystrau, cwynion a chanmoliaeth sy'n gysylltiedig gyda darparu a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Arwyddion Ffordd (Contractwyr Allanol)-

Cafwyd eto eleni sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd a aelodau lleol ynghylch arwyddion a osodwyd gan gontractwr allanol a gyflogwyd gan yr adran i ymgymryd â gwaith ar ein rhan, gan eu bod yn uniaith Saesneg. Cafodd y mater ei ddatrys yn brydlon, a chymerwyd camau i sicrhau bod arwyddion priodol yn cael eu gosod. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma drwy gynnal sesiynau briffio gyda chontractwyr i atgyfnerthu gofynion y Gymraeg o fewn ein contractau a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau a disgwyliadau'r Cyngor.

Mae'r Gwasanaeth YGC gyda achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP)

Adnewyddwyd yr achrediad yma y llynedd am y 3ydd cyfnod. Cynhaliwyd holl gamau'r achrediad gyda BMP o'r cyfarfod cyntaf i dderbyn y dystysgrif adnewyddu drwy gyfrwng y

Gymraeg. Eleni rydym wedi cwrdd a'n asesydd newydd sydd yn frwdfrydig am gynnal ein cyfarfodydd cynnydd ac asesiad nesaf yn Gymraeg.

Mynychu Digwyddiadau - Roedd yn amlwg o'r adborth a gawsom yn Sioe Sir Fôn ac yn y digwyddiadau gyrfaedd eleni bod gwerthfawrogiad mawr, nid yn unig i'r gwasanaeth a gyflwynir i'n trigolion, ond hefyd i ddefnydd a'r hyrwyddo o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Roedd hyn yn galonogol ac yn cadarnhau ein bod ar y llwybr cywir yn ein hagwedd at yr iaith.

Adroddiad yr adran i Bwyllgor Iaith 2025: [Adroddiad yr Adran Priffyrdd Peirianeg ac YGC ar weithrediad y Polisi Iaith a chyfraniad tuag at w.pdf](#)

Atodiad 1:

Arwyddion Uniaith Gymraeg



Tîm YGC yn Sioe Meirionnydd 2026



Ymgyrch Ymwybyddiaeth Amgylcheddol Ysgol Penybryn



Prosiect Gardd Gymunedol Penrallt



Diwrnod Tacluso Gardd Gymunedol Carmel

